

Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol (MPSRG)

9 Gorffennaf 2020



Yn bresennol

John Hamer, Eluned Jones, Phil Coates, Rebecca Rees, Rafe Osborne, Hishiv Shah (Llywodraeth Cymru), **Adrian Judd & Rachel Mulholland** (Cefas), **Lucie Skates, Karen Perrow & Helen Bloomfield** (CNC), **Mike Butterfield, Richard Hill & Phil Horton** (RYA), **Abby Haines** (MMO), **Rosie Kelly & Joe Smithyman** (Ystâd y Goron), **Katie Havard-Smith** (Partneriaeth Afon Hafren), **Emily Williams** (RSPB), **John Wrottesley** (ESCA), **Manon Kynaston** (Ynni Morol Cymru), **Eunice Pinn** (Seafish), **Ruth Callaway & Kam Tang** (Prifysgol Abertawe), **Jillian Whyte** (JNCC), **Mark Simmonds** (British Ports), **Mark Russell** (Mineral Products Association), **Clare Trotman** (MCS), **Stephen Jay** (Prifysgol Lerpwl)

1. Cafodd y Grŵp y newyddion diweddaraf am waith y tîm Cynllunio Morol, gan nodi yr adolygydd y cynllun gwaith blaenorol, gyda rhai meysydd gwaith wedi eu harafu neu yn ail-ffocysu ac eraill yn mynd ymlaen fel a gynlluniwyd o ystyried sefyllfa bresennol COVID. Roedd [Canllawiau Gweithredu](#) WNMP wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar, a'r Porthol Cynllunio Morol wedi ei ddiweddarau, gyda'r tîm bellach yn datblygu canllawiau gofodol. Mae deunydd ychwanegol hefyd wedi'i gynhyrchu i sicrhau hygyrchedd y cynllun, ac mae hyn yn cynnwys pum gweminar sy'n cynnwys nifer o agweddau ar y broses Cynllunio Morol, y mae Llywodraeth Cymru yn anelu at ei chyhoeddi erbyn diwedd Gorffennaf. Roedd contract yn cael ei gaffael yn fuan i ddatblygu Canllawiau Gofodol ar gyfer y Sectorau Dyframaethu, Ffrwd Llanw ac Ynni Morol.
2. Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno dau ddull o gefnogi'r broses o weithredu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru; y ddogfen Canllawiau Gweithredu a dogfen Llywodraethu cynllunio morol. Nawr bod y Canllawiau Gweithredu wedi eu cyhoeddi byddai diweddariad systemataidd o'r ddogfen pan y byddai hynny yn briodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn hysbysu rhanddeiliaid pan fydd diweddariad yn yr arfaeth, ond yn y cyfamser derbynir adborth drwy'r [Blwch Postio Cynllunio Morol](#). Wedi cyhoeddi'r WNMP, mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu nifer o ddogfennau atodol ar wahân.
3. Cafodd y Grŵp y newyddion diweddaraf ar ddull Llywodraeth Cymru o fonitro ac adrodd ar y Cynllun Morol Cenedlaethol. Ym mis Ionawr cafodd y fframwaith Monitro a Chofnodi ei gyhoeddi sy'n rhoi amlinelliad o'r dull cyffredinol o Fonitro a Chofnodi. Roedd y gyfres lawn o ddangosyddion ar y trywydd iawn i gael eu datblygu a'u cyhoeddi yn 2020, ac yn 2022 caiff yr adroddiad Monitro a Chofnodi ei gyhoeddi. Yn y cyfnod tan hynny caiff data llinell sylfaen ei gasglu a thystiolaeth newydd ar gyfer y dangosyddion. Mae'r dangosyddion posibl wedi'u rhannu yn dri grŵp; y rhai sy'n canolbwyntio ar y tymor byr, y tymor canolig (drwy gydweithio gyda rhanddeiliaid) a'r tymor hir.
4. Cafodd ystyriaethau Monitro a Chofnodi ar draws ffiniau eu trafod. Cyn y cyfarfod, roedd cwestiynau wedi eu rhoi i'r grŵp yn dilyn trafodaethau gyda'r Sefydliad Rheoli Morol. Cafwyd trafodaeth ynghylch manteision a heriau cysylltu trefn gofnodi

Cynlluniau Morol awdurdodau cyfagos a theimlwyd y byddai'n well cael rhywbeth llai ffurfiol.

5. Cafodd y grŵp y newyddion diweddaraf a throsolwg o'r [Porthol Cynllunio Morol \(MPP\)](#) sy'n darparu tystiolaeth ofodol sy'n gysylltiedig â Chynllunio Morol yng Nghymru. Roedd yr MPP ar blatfform LLE oedd yn cynnwys data gan Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r MPP yn casglu haenau o ddata gofodol sy'n berthnasol i Gynllunio Morol o setiau data LLE a setiau data o bartïon eraill y gellir eu hychwanegu. Yn y dyfodol agos caiff yr MPP ei symud ar Fap Data Cymru fydd yn rhoi mwy o swyddogaethau ac a oedd yn blatfform cyson ar draws Llywodraeth Cymru.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 24 Medi.

Ymholiadau at: Rebecca.Rees2@llyw.cymru